Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymru Ryngwladol

20 Mawrth 2018

Yn bresennol
Rhun ap Iorwerth AC (Cadeirydd)

Heledd Roberts – Swyddfa Rhun ap Iorwerth AC

Chris Brown – Cyfarwyddwr Cwmni, G39
Ruth Cayford – Rheolwr y Celfyddydau, Cyngor Caerdydd
Lisa Mathews – Rheolwr Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru
Cathy Boyce – Cynhyrchydd Creadigol, Chapter
Michelle Carwardine-Palmer – Rheolwr Gyfarwyddwr, National Theatre Wales
Kate Perridge – Cynhyrchydd, Annibynnol
Yvette Vaughan Jones – Prif Weithredwr, Visiting Arts
Alison Woods – Cyfarwyddwr Gweithredol, NoFit State Circus
Nick Banwell – Cyfarwyddwr, Creu Cymru
Nick Winter – Cyfarwyddwr Gweinyddu Artistig, Opera Cenedlaethol Cymru
Clare Williams – Prif Weithredwr, Hijinx
Melanie Hawthorne – Polisi ac Eiriolaeth, Oxfam
Zélie Flach – Swyddog Ewropeaidd, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Louise Wright – Rheolwr Portffolio, Cyngor Celfyddydau Cymru
Ceri Jones – Partner, Fieldwork
Bethan Elfyn – Rheolwr Prosiect, BBC Cymru
John Rostron – Sylfaenydd, Sŵn
Elena Schmitz – Pennaeth Rhaglenni, Llenyddiaeth Cymru
Helgard Krause – Prif Weithredwr, Cyngor Llyfrau Cymru
Pauline Burt – Prif Weithredwr, Ffilm Cymru Wales
Paul Keynes – Prif Weithredwr, Cwmni Dawns Cymru
Andy Eagle – Cyfarwyddwr, Chapter

Jenny Scott – Cyfarwyddwr, British Council Cymru
Alison Cummins – Rheolwr Cyfathrebu a Chysylltiadau, British Council Cymru
Rebecca Gould – Pennaeth y Celfyddydau, British Council Cymru
Rosa Bickerton – Swyddog y Celfyddydau, British Council Cymru
Natasha Nicholls – Rheolwr Prosiect, British Council Cymru
Edmund Thomas – Swyddog Prosiect, British Council Cymru

1. Croeso gan y Cadeirydd
Nododd y Cadeirydd nad oedd yr Aelodau Cynulliad oedd am fynychu cyfarfod heddiw yn gallu gwneud bellach yn sgil trafodaeth ar ddeddfwriaeth frys yn y Siambr. Nododd y Cadeirydd ei ymddiheuriadau am y byddai'n rhaid iddo yntau adael y cyfarfod yn gynnar am yr un rheswm. Rhoddodd y Cadeirydd orolwg byr a chyflwyniad i waith y grŵp trawsbleidiol. Nododd ei fod yn falch y byddai'r cyfarfod hwn yn edrych ar y celfyddydau yng Nghymru, yn enwedig oherwydd y gallai cysylltiadau celfyddydau rhyngwladol roi hwb i'r celfyddydau yng Nghymru a chodi proffil Cymru yn rhyngwladol.

2. Llwyfan i'r Celfyddydau yng Nghymru?
Arweiniodd Rebecca Gould (RG) y drafodaeth gyda chipolwg ar y gwaith da y mae artistiaid a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru yn ei wneud i werthu'u gwaith i weddill y byd. Holodd a fyddai cynnal digwyddiad i hyrwyddo'r gwaith yn fodd o gynorthwyo, ac o gynyddu'r llwyddiant hwn. Gofynnodd RG i John Rostron (JR) ac Elena Schmitz (ES) roi eu barn nhw ar ddigwyddiadau hyrwyddo y gellid eu defnyddio fel modelau cadarnhaol i Gymru.

Nododd JR nad oedd cerddoriaeth yn cael ei hyrwyddo yng Nghymru mewn cymhariaeth â mannau eraill ledled y byd. Rhoddodd ddwy enghraifft o ddigwyddiadau hyrwyddo rhyngwladol da iawn. Y cyntaf oedd Showcase Scotland oddi mewn i Celtic Connections, ac edrychodd ar y modd y defnyddiwyd ymbarél Celtic Connections i ddenu cynulleidfa o bob cwr o'r byd i'r digwyddiadau hyrwyddo ar gyfer talent o'r Alban. Nododd JR, pan ddechreuodd, roedd Llywodraeth yr Alban yn ariannu Showcase Scotland ond cystal oedd ei lwyddiant fel ei fod bellach yn ariannu ei hun.

Yr ail enghraifft a roddodd JR oedd Osheaga yn Montreal, gan nodi mai digwyddiad byrrach, mwy cyhoeddus, mwy amrywiol, ac – yn bwysicach – yn fwy dwyieithog, na Celtic Connections yw hon. Mae'r ŵyl yn cynnal sesiynau rhwydweithio arbennig sy'n helpu creu cysylltiadau busnes ac eraill ledled y byd.

Soniodd ES am gynllun peilot, lle mae saith sefydliad yng Nghymru (British Council Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru, Literature Across Frontiers, Wales PEN Cymru a Chyfnewidfa Lên Cymru) yn gweithio gyda Llenyddiaeth Cymru i rannu presenoldeb yn Ffair Lyfrau Llundain 2018 ym mis Ebrill. Bydd y stondin ar y cyd yn sicrhau cryn ffocws ar gyhoeddi yng Nghymru, ymhell tu hwnt i'r hyn y byddai unrhyw gyhoeddwr unigol yn gallu'i fforddio. Caiff llyfr Alys Conran Pigeon/Pijin amlygrwydd ar y stondin fel enghraifft o lwyddiant cyhoeddi dwyieithog. Cyflwynodd ES yr Ŵyl Lenyddiaeth Ryngwladol yn Norwich (a gaiff ei gynnal gan British Council a Chanolfan Awduron Norwich) fel enghraifft o ŵyl fach, ond arwyddocaol, sy'n canolbwyntio ar y diwydiant, y gellid ei defnyddio fel model yng Nghymru.

Nododd y Cadeirydd y gall fod llawer o bobl yn ei chymryd yn ganiataol bfd gwaith hyrwyddo eisoes yn digwydd yng Nghymru, ac os oedd consensws ar draws y celfyddydau yng Nghymru y dylid ei ddatblygu ymhellach, yna fe fyddai â diddordeb i fynd â hyn at y Cynulliad i'w drafod.

Awgrymodd Helgard Krause (HG) Ŵyl Lyfrau Frankfurt fel digwyddiad hyrwyddo, sef gŵyl sy'n para blwyddyn i ddathlu llenyddiaeth, cerddoriaeth, cynnwys a bwyd, sy'n denu 300,000 o ymwelwyr rhyngwladol. Defnyddiodd HG Wlad yr Iâ fel enghraifft o wlad sydd wedi defnyddio nawdd o ryw €3.5 miliwn i sicrhau statws Gwestai Anrhydeddus yn y Ffair, ac wedi cael budd mawr o wneud hynny.

Gofynnodd Alison Woods (AW) a fyddai'n fwy cost effeithiol i anfon cyfranogwyr o Gymru i ddigwyddiadau hyrwyddo sefydledig ledled y byd.

Nododd Yvette Vaughan Jones (YVJ) fod gan Quebec amrywiaeth o wyliau sy'n benodol iawn o ran sector.

Soniodd Bethan Elfyn (BE) am Eurosonic yn Groningen, gan roi enghraifft Gwlad yr Iâ fel gwlad sy'n cael ei chynrychioli'n dda yno, gan nodi bod Cymru ar ei cholled o fod yn rhan o gynrychiolaeth gwledydd Prydain.

Ailfynegodd y Cadeirydd ei awydd i sicrhau bod hyn yn bwnc trafod i'r Cynulliad ar ryw adeg er mwyn ysgogi trafodaeth wleidyddol. Ar y pwynt yma, bu'n rhaid i'r Cadeirydd adael yr ystafell er mwyn mynd i'r ddadl frys yn y Senedd.

Soniodd Andy Eagle (AE) am y ffaith bod Quebec yn fodel da o bartneriaeth breifat/gyhoeddus, gan ddisgrifio sut maen nhw'n ariannu eu rhwydwaith byd-eang o asiantau (yn rhannol gyflogedig, ac yn rhannol yn derbyn comisiwn). Dywedodd y gallai Llywodraeth Cymru ddilyn model fel hyn petai'n defnyddio'r pum swyddfa ryngwladol newydd i sefydlu rhwydweithiau tebyg.

Nododd RG nad oes stratwm o asiantau a hyrwyddwyr yng Nghymru fel sydd yna yn Lloegr, ac mae hyn yn cyfyngu mynediad artistiaid Cymru at farchnadoedd y byd.

Amlygodd Michelle Carwardine-Palmer (MCP) y ffaith bod Cymru yn cael ei cholli yng nghyd-destun ehangach gwledydd Prydain, ond y byddai denu pobl i Gymru yn sicrhau bod cynulleidfa ehangach yn cael deall y wlad.

Rhybuddiodd Paul Keynes y gallai cymryd amser hir (5 i 20 mlynedd) i ddigwyddiadau hyrwyddo *niche* ennill eu plwyf.

Gofynnodd Clare Williams (CW) a oedd model o ddigwyddiad hyrwyddo oedd yn sicrhau annibyniaeth dros reoli ansawdd? Os caiff cynnyrch ei werthu yn enw Cymru, dylai fod yn gorfod pasio trothwy ansawdd.

Dywedodd RG ei bod yn derbyn adborth rheolaidd bod gwledydd yn dymuno gweithio gyda Chymru yn hytrach na'r DU/Lloegr am nifer o resymau.

Anogodd MCP Gymru i geisio efelychu gwyliau bychain yn hytrach na chopïo rhai mawr.

Nododd Lisa Mathews (LW) fod Eurosonic wedi'i sefydlu am fod cerddoriaeth bandiau o Ewrop yn cael ei boddi gan fandiau sy'n derbyn nawdd o Loegr.

Roedd trafodaeth fer am Showcase Scotland (SS), gan ystyried a allai fod bob dwy flynedd, yn hytrach na bob blwyddyn (JR), gan amlygu pwysigrwydd rheoli ansawdd a'r gefnogaeth a roddir gan y cynhyrchydd (RG).

Pwysleisiodd BE (ac yna ES) y pwynt ei bod hi'n cymryd amser hir i ddatblygu perthynas, a phan gaiff cynadleddwyr eu gwahodd i'r digwyddiadau hyrwyddo, rhaid iddyn nhw gael arweiniad – a sicrhau eu bod yn gweithio – er mwyn eu bod yn gwneud yr hyn y dylent ar ein rhan.

Dywedodd RG y dylai canlyniadau'r trafodaethau hyn arwain at rywbeth sy'n cael ei arwain gan y sector ac nid gan y Llywodraeth. Rôl British Council fydd i gefnogi'r sector mewn menter sy'n cael ei harwain gan y sector.

Mynegodd Louise Wright (LW) yr awydd i ddefnyddio modelau sydd eisoes yn bodoli, waeth beth oedd y canlyniad, ac na ddylai Cymru geisio adeiladu rhywbeth o'r newydd.

Dywedodd Jenny Scott (JS) ei bod am adrodd yn ôl i'r Cadeirydd, fel y gallai fynd â rhywbeth i'r Senedd, a bod angen i'r sector fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'n dymuno i'r gwleidyddion ei wneud. Awgrymodd JS pe na bai Cymru'n gweithredu'n fuan, byddai ymron yn amhosibl iddi ddechrau unrhyw ddigwyddiad hyrwyddo ymhen pum mlynedd hyd yn oed, yn enwedig o ystyried bod gan Lywodraeth Cymru awydd i wneud rhywbeth nawr.

Ar ran y Cadeirydd, diolchodd RG i bawb am eu mewnbwn i'r cyfarfod.